



Ffurflen Cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu - 2023/24

Y ffordd gyflymaf a hawsaf i chi roi gwybod i ni faint o Fenthyciad Ffioedd Dysgu ydych chi eisiau yw ar-lein. Ewch i fewngofnodi i'ch cyfrif yn www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

Cyfeirnod Cwsmer	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>
Enw(au) cyntaf	
Cyfenw	
Dyddiad geni	Dydd <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> Mis <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> Blwyddyn <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>
Faint o Fenthyciad Ffioedd Dysgu yr ydych eisiau ymgeisio amdano:	
Yr uchafswm ar gael i chi:	Ticiwch
Os hoffech ymgeisio am lai na'r uchafswm sydd ar gael i chi, nodwch y swm os gwelwch yn dda:	£ <input type="text"/>
Am wybodaeth ar faint o Fenthyciad Ffioedd Dysgu allech chi gael – ewch i'n gwefan yn www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk	
Rhif Yswiriant Gwladol	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>
Manylion cyswllt	
Rhowch enwau a chyfeiriadau dau gyswllt. Ni ddylai'r enwau a roddwch fyw yn yr un cyfeiriad â'i gilydd a rhaid i un ohonynt fod yn berthynas, partner, gwarcheidwad neu berthynas agosaf.	
Ni fyddwn yn cysylltu â'r bobl hyn oni bai eich bod, er enghraifft, yn newid cyfeiriad a heb roi gwybod i ni.	
Rhaid i chi roi gwybod i'ch cysylltiadau eich bod yn rhoi eu manylion cyswllt i ni.	
Enw(au) cyntaf:	Enw(au) cyntaf:
Cyfenw:	Cyfenw:
Perthynas â chi:	Perthynas â chi:
Cyfeiriad:	Cyfeiriad:
<input type="text"/>	<input type="text"/>
Côd post:	Côd post:
Gwlad:	Gwlad:
Rhif ffôn:	Rhif ffôn:





Telerau ac amodau

Mae'r telerau ac amodau ("telerau") hyn a deddfwriaeth berthnasol yn weithredol o ran yr holl gyllid i fyfyrwyr sydd ar gael i fyfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023/24.

Rwy'n deall bod yn rhaid i mi ddarllen y telerau penodol ynghylch cynnyrch cyllid i fyfyrwyr ar gael oherwydd y byddant yn effeithio arnaf os byddaf yn ymgeisio amdanynt ar unrhyw adeg yn y flwyddyn academaidd hon.

Rwy'n deall y gallai fy nghais am gyllid i fyfyrwyr gael ei ohirio oni bai fy mod yn llofnodi a dyddio'r telerau hyn.

Contract y Benthyciad

1. Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y telerau hyn a bod Canllaw i Amodau a Thelerau ar gael ar www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/telerau-ac-amodau
2. Rwy'n cadarnhau fod yr wybodaeth rwyf wedi ei darparu, hyd eithaf fy ngwybodaeth a chred, yn wir a chyflawn. Os nad yw, rwy'n deall ei bod yn bosibl na fyddaf yn derbyn cyllid i fyfyrwyr, y bydd unrhyw gefnogaeth yr wyf wedi ei chael yn cael ei thynnu yn ôl ac y gellir fy erlyn.
3. Rwy'n deall fod cyllid i fyfyrwyr yn cael ei ddarparu i mi gan Weinidogion Cymru (y "Rhoddwr Benthyciadau") sy'n cynnwys unrhyw bersonau yn gweithredu ar eu rhan ac unrhyw amnewidiad(au) dan adran 23(4) Deddf Addysg Uwch 1998 fel y'i diwygiwyd neu amnewidiwyd o bryd i'w gilydd (y "Ddeddf").
4. Rwy'n deall y bydd y telerau hyn, y Ddeddf a'r rheoliadau a wneir dan adran 22 y Ddeddf yn berthnasol i unrhyw gyllid i fyfyrwyr a roddir mi gan y Rhoddwr Benthyciadau.
5. Rwy'n deall bod "cyllid i fyfyrwyr" yn y telerau hyn yn golygu cefnogaeth ariannol trwy grant(iau) ac/neu fenthyciad(au) a wneir gan y Rhoddwr Benthyciadau dan y rheoliadau.
6. Rwy'n deall bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ("SLC") yn cyflawni swyddogaethau penodol ar ran y Rhoddwr Benthyciadau.

Fy Ymrwymiadau

7. Rwy'n deall os ydw i:
 - (i) wedi cyrraedd 18 oed; ac
 - (ii) fy mod wedi mynd i gytundeb(au) am fenthyciad dan adran 22 y Ddeddf cyn i mi gyrraedd 18 oed, fy mod yn cytuno i "ddilysu" unrhyw a phob benthyciad myfyriwr trwy lofnodi'r telerau hyn. Mae hyn yn golygu fy mod yn cadarnhau fy mod wedi mynd i gytundeb(au) gyda'r Rhoddwr Benthyciadau ac yn cytuno i delerau unrhyw gytundeb(au) blaenorol o'r fath. Os ydw i wedi cyrraedd 18 oed ac yn gwrthod "dilysu" unrhyw gytundeb(au) blaenorol, rwy'n deall na fyddaf yn gymwys i gael unrhyw gyllid i fyfyrwyr pellach dan y rheoliadau.
8. Rwy'n cytuno i roi unrhyw wybodaeth i SLC y bydd angen i gefnogi'r cais yma am gyllid i fyfyrwyr ac/neu i gasglu ad-daliad.
9. Rwy'n cytuno i roi gwybod i SLC ar unwaith s bydd fy amgylchiadau'n newid mewn unrhyw fodd a allai effeithio ar fy hawl i gyllid i fyfyrwyr. Os na fyddaf yn gwneud hyn deallaf na fyddaf efallai yn cael taliadau pellach a bod posibilrwydd y bydd yn rhaid i mi ad-dalu'r cyllid i fyfyrwyr yr ydw i eisoes

wedi'i gael. Rwy'n cytuno o'r dyddiad y byddaf yn cyflwyno fy nghais am gyllid i fyfyrwyr nes bydd fy menthyciad(au), ynghyd â'r holl ac unrhyw log, cosbau a thaliadau sy'n berthnasol, yn cael ei ad-dalu yn llawn, bod yn rhaid i mi hysbysu SLC am unrhyw newidiadau yn fy manylion personol (gan gynnwys fy rhif Yswiriant Gwladol) a'r manylion cyswllt a roddais.

10. Rwy'n cytuno os byddaf yn cael gordaliad o gyllid i fyfyrwyr, mae angen i mi ei ad-dalu'n llawn ac y gellir casglu unrhyw ordaliad o unrhyw gais pellach am gyllid i fyfyrwyr.
11. Rwy'n cytuno y byddaf yn ad-dalu'r Rhoddwr Benthyciadau unrhyw fenthyciad(au), ynghyd â phob ac unrhyw log, gosbau a thaliadau sy'n berthnasol. Rwy'n deall y bydd yr ad-daliad hwn yn ddyledus gennyf fi i'r Rhoddwr Benthyciadau fel dyled. Os byddaf yn torri unrhyw un o delerau fy menthyciad, rwy'n cytuno i dalu unrhyw gostau a chosbau perthnasol dan y Ddeddf a'r rheoliadau. Rwy'n deall y byddaf yn ad-dalu fy menthyciad(au) trwy system dreth y Deyrnas Unedig ("DU") ac/neu y gallaf ad-dalu SLC yn uniongyrchol. Os ydw i'n byw dramor, byddaf yn ad-dalu fy menthyciad(au) i SLC yn uniongyrchol.
12. Rwy'n cytuno fod unrhyw fenthyciad(au) a wneir i mi yn unol â'r rheoliadau unwaith y derbynnir fy nghais gan y Rhoddwr Benthyciadau yn gytundeb(au) rhyngof fi a'r Rhoddwr Benthyciadau. Rwy'n deall fy mod yn atebol ar gyfer fy menthyciad(au) ac y codir llog arnaf o daliad cyntaf y benthyciad gan y Rhoddwr Benthyciadau.
13. Rwy'n cytuno i roi gwybod i SLC os byddaf yn gadael y DU i fyw tu allan i'r DU neu os am ba bynnag reswm arall y byddaf tu allan i system dreth y DU am fwy na thri mis.

Camau Cyfreithiol a Deddfau Perthnasol

14. Os bydd galw am unrhyw achos cyfreithiol, rwy'n cytuno mai deddfau Cymru a Lloegr fydd yn weithredol ac y bydd y llysoedd yn y rhan honno o'r DU yn clywed unrhyw achos cyfreithiol. Os yw fy nghyfeiriad tu allan i'r DU, bydd deddfau'r rhan o'r DU ble mae fy narparwr addysg wedi ei leoli yn berthnasol a bydd y llysoedd yn y rhan honno o'r DU yn clywed unrhyw achos cyfreithiol. Rwy'n cytuno bod gan y Rhoddwr Benthyciadau'r hawl i gymryd camau cyfreithiol yn fy erbyn mewn unrhyw lys arall gydag awdurdod.

Rhannu Gwybodaeth

15. Os ydw i'n torri'r telerau hyn ac/neu'r rheoliadau, rwy'n cytuno y gall y Rhoddwr Benthyciadau rannu gwybodaeth amdanaf a fy nghyfrif gydag unrhyw drydydd parti yn cynnwys y llywodraeth neu asiantaeth llywodraeth gwlad arall, allai helpu fy lleoli ac/neu helpu gweithredu i adfer unrhyw daliadau sy'n ddyledus.
16. Rwy'n cadarnhau ble rwyf wedi darparu unrhyw wybodaeth bersonol ynghylch unrhyw berson arall yn fy nghais am gyllid i fyfyrwyr, fy mod wedi gwneud hynny gyda'i ganiatâd neu ei chaniatâd.
17. Rwy'n deall y bydd SLC yn prosesu fy nata personol yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd sydd ar gael ar www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd a allai gael ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd.

Eich llofnod

X

Dyddiad

Dydd	Mis	Blwyddyn
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>